Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd:Swyddog Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth** | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Ymchwil |
| **Adran/Pwnc:** | Gwyddor Data |
| **Cyflog:** | Gradd 8: £39,355 i £45,413 y flwyddyn a buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos (100% CALl) |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodol yw hon, tan fis Mawrth 2028 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Gwahoddir ceisiadau am swydd Swyddog Ymchwil ar gyfer PROMISE *(Prevention of Risks and Onset of Mental Health problems through Interdisciplinary Stakeholder Engagement)* yn nhîm Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio ac Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Abertawe, dan arweiniad yr Athro Ann John.<br><br>Ymunwch a thîm amlddisgyblaethol yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe i gynnal ymchwil i iechyd meddwl y boblogaeth, gan ddadansoddi set ddata o'r radd flaenaf ar lefel y boblogaeth sy'n cynnwys biliynau o gofnodion gan ddefnyddio cymysgedd o fethodolegau dadansoddol traddodiadol a newydd. Dyma gyfle cyffrous i wneud gwaith sy'n bwysig ac sydd â'r potensial i gael effaith go iawn ar atal hunanladdiad, gwella ymyriadau hunan-niwed a phenderfyniadau polisi yng Nghymru.<br><br>**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**<br>1. Prosesu a dadansoddi data o sawl ffynhonnell ym manc data SAIL, gan gynnwys cofnodion iechyd, data gofal cymdeithasol a data addysgol<br>2. Cyflawni ar gwestiynau ymchwil penodol yn y tîm o ran atal hunanladdiad, hunan-niweidio ac iechyd meddwl<br>3. Ymgymryd â gwaith dadansoddi data hynod gymhleth a strwythuredig, gan ymdrin yn briodol â chofnodion â phosibilrwydd o fod yn ddata deublyg, ar goll a gwallus, a dogfennu'r fethodoleg<br>4. Ysgrifennu adroddiadau a phapurau a chyflwyno canlyniadau ymchwil i gyfoedion mewn cynadleddau a chydweithrediadau'r diwydiant<br>5. Cynnal ymchwil a chyfrannu'n rhagweithiol at gynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, a chyflwyno canlyniadau<br>6. Bod yn hunangymhellol, cymhwyso a defnyddio ei fenter ei hun, â'r nod o ddod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau<br>7. Bod yn greadigol wrth ddadansoddi a dehongli data ymchwil a dod i gasgliadau ar sail y canlyniadau<br>8. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithwyr a phartneriaid eraill<br>9. Cyfrannu'n rhagweithiol at ddatblygu ceisiadau am gyllid allanol. Disgwylir i'r unigolyn a benodir ysgrifennu ceisiadau o'r fath, neu gyfrannu at eu hysgrifennu, a hynny'n rhan arferol o'i waith.<br>10. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>11. Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes<br>12. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygu perfformiad a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>13. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill<br>14. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 15. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>16. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd. |

| | |
|---|---|
| | 17. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>18. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br>Ein Gwerthoedd:<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein huniondeb a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.<br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | **Gwerthoedd:**<br>1. Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>2. Gallu gweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid.<br>3. Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br>**Cymwysterau:**<br>4. PhD mewn Ystadegaeth, Gwyddor Data, Epidemioleg, Seicoleg neu ddisgyblaeth gysylltiedig.<br>**Profiad:**<br>5. Profiad sylweddol o weithio gyda data mewn epidemioleg, gwybodeg iechyd, biowybodeg, a/neu feysydd gwyddor data.<br>6. Tystiolaeth o gyfranogiad gweithredol a rôl bersonol wrth ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, a chyfrannu at y gwaith hwn, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.<br>7. Tystiolaeth o'r capasiti i ddylunio ymchwil ac ysgrifennu ceisiadau am gyllid ymchwil allanol.<br>8. Profiad o ddadansoddi setiau data gofal iechyd ar raddfa fawr.<br>9. Tystiolaeth o gynllunio a chynnal dadansoddiadau cymhleth a dehongli'r canlyniadau.<br>**Gwybodaeth a Sgiliau:**<br>10. Tystiolaeth o arbenigedd mewn iaith raglennu, megis SQL, R, Stata neu Python.<br>11. Y gallu i ddangos annibyniaeth sylweddol o ran ffocws a chyfeiriad mewn ymchwil – penderfynu 'beth, pam, pryd a chyda phwy' i fwrw ymlaen â'r gwaith.<br>12. Gallu i reoli eich tasgau a'ch gweithgareddau gweinyddol eich hun er mwyn bodloni terfynau amser. |

| | |
|---|---|
| | 13. Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>14. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>**Meini Prawf Dymunol:**<br>1. Profiad ym maes ymchwil iechyd meddwl a gwybodeg iechyd.<br>2. Profiad o ddadansoddi data gofal iechyd rheolaidd<br>3. Gwybodaeth am epidemioleg seiciatrig<br>4. Profiad o oruchwylio prosiectau ymchwil myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig.<br>5. Profiad o fodelu rhagfynegol a dulliau dysgu peirianyddol<br>6. Hanes o gyhoeddi mewn maes perthnasol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Marcos Del Pozo Banos (m.delpozobanos@abertawe.ac.uk)<br>Amanda Marchant (a.l.marchant@abertawe.ac.uk) |